


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig

## Grant Datblygu Prosiect
## Canllaw Sut i Lenwi

© Hawlfraint y Goron WG50551 ISBN Digidol 978-1-83625-561-1

OGL

# Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig - Grant Datblygu Prosiect - Canllaw Sut i Lenwi

Bydd y canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau cam wrth gam ynghylch sut i lenwi eich Grant Datblygu Prosiect ar gyfer y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r canllaw hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## Cynnwys


Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein – Hafan ........ 3

Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Tudalen Ffurflenni ........ 4

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Dechrau arni ........ 5

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Tudalennau Cyflwyniad a Hysbysiad Preifatrwydd ........ 6

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Sut i gadw'r wybodaeth hanner ffordd drwy'r cais ........ 7

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Manylion y Busnes / Corff ........ 8

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra ........ 8

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra – Rhestr o Ffermwyr ........ 9

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra – Rhestr o Sefydliadau / Unigolion ........ 10

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra – Manylion y prosiect ........ 10

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Y Cydweithio ........ 11

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Y Dirwedd ........ 11

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Y cyfle a'r heriau ........ 12

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Effaith, canlyniadau a manteision posibl ........ 13

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Gwerth am arian ........ 13

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb ........ 15

Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Datganiadau ac Ymrwymiadau ........ 16


Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno ........ 16

Ar ôl cyflwyno'n llwyddiannus ........ 17

**Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein – Hafan**

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. I gael rhagor o fanylion, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru. Os oes angen newid manylion eich busnes, gallwch newid y rhan fwyaf ohonynt ar-lein. Ond, efallai y bydd angen rhagor o fanylion ar Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau mawr. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**




Os ydych yn cael trafferthion neu'n ei chael hi'n anodd mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.

Yn ôl i'r Cynnwys

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Tudalen Ffurflenni

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.

Yn yr adran Dechrau Ffurflen ar waelod sgrin yr Hafan, mae'r cynlluniau sy'n agored ar gyfer ceisiadau wedi'u rhestru.





Yn yr adran 'Dechrau Ffurflen' a ddangosir uchod bydd angen i chi ddewis 'Ffurflen y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig'. I symud drwy'r ffurflen y tu hwnt i'r pwynt hwn bydd botymau 'Yn ôl', 'Safio' a 'Nesaf' ar frig a gwaelod y dudalen ar y dde er mwyn i chi symud rhwng tudalennau. Sylwer bod terfyn amser awtomatig ar wefan RPW os yw'n cael ei adael yn segur yn rhy hir, felly cofiwch glicio ar 'safio' er mwyn cadw eich gwaith wrth i chi fynd ymlaen.

I newid yr iaith ar unrhyw adeg cliciwch ar y botwm Cymraeg. Bydd hyn yn caniatáu ichi ddewis yr iaith y mae eich Ffurflen Gais yn cael ei harddangos ynddi.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Dechrau arni

Ar ôl i chi ddarllen canllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig, i ddechrau eich cais am grant, cliciwch ar y **botwm Dechrau**.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan | Fy Manylion | Tir | Gohebiaeth 6 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Dechrau Cais dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cais am Grant i Ddatblygu Prosiect.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn .

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cais am Grant i Ddatblygu Prosiect** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
**Enw Masnachu**
**Cyfeiriad**
**Côd Post**
**Rhif Ffôn**
**Cyfeiriad e-bost**
**Nifer y Partneriaid**


Dewisiadau Ar-lein
**E-bost ynte neges destun (SMS)**
**Cyfeiriad e-bost**
**Rhif ffôn symudol**

Dechrau | Canslo

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Tudalennau Cyflwyniad a Hysbysiad Preifatrwydd

Ar ôl i chi ddewis yr hyperddolen byddwch yn mynd i dudalen Cyflwyniad ac yna tudalen Hysbysiad Preifatrwydd. Mae sawl hyperddolen i wybodaeth a chanllawiau ychwanegol y dylech eu darllen cyn llenwi'r cais hwn. Dylech sicrhau eich bod yn deall yr wybodaeth ar y tudalennau hyn yn llawn cyn symud ymlaen.








[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Sut i gadw'r wybodaeth hanner ffordd drwy'r cais

Tra byddwch yn gweithio drwy eich cais efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol arnoch cyn y gallwch lenwi'r Grant Datblygu Prosiect. Mae swyddogaeth 'safio' y gallwch ei defnyddio i gadw'r wybodaeth rydych wedi'i darparu hyd yn hyn ac yna gadael y cais yn ddiogel heb golli'r cynnydd rydych wedi'i wneud.


Pan fyddwch yn mewngofnodi eto ac yn clicio ar y ddolen i'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig eto byddwch yn gweld tudalen 'Parhau â Chais'. Mae gwybodaeth bwysig y mae angen i chi ei darllen, a phan fyddwch yn barod i fynd ati sgroliwch i'r gwaelod a chliciwch ar y botwm 'Parhau'.




[Yn ôl i'r Cynnwys](#)


## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Manylion y Busnes / Corff

Rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon. Pan ofynnir am fanylion ysgrifenedig, rhowch gymaint o fanylion â phosibl. Cyn rhoi gwybodaeth, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen Canllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.




## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra

Mae'n rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon. Lle gofynnir am fanylion ysgrifenedig, rhowch gymaint o fanylion â phosibl. Cyn nodi'r wybodaeth, sicrhewch eich bod wedi darllen Canllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.



Unwaith y byddwch wedi llenwi'r wybodaeth cliciwch ar y botwm Nesaf. Os nad ydych wedi ateb cwestiwn, ni fyddwch yn cael parhau a bydd y maes sydd â data ar goll yn cael ei liwio'n goch.

Yn ôl i'r Cynnwys

**Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra – Rhestr o Ffermwyr**

Mae angen i chi restru pob ffermwr a fydd yn rhan o'ch prosiect cydweithio. Bydd angen i chi roi manylion pob busnes fferm unigol sy'n rhan o'r cydweithio yn y Grant Datblygu Prosiect..

Mae'n rhaid i chi lenwi'r holl fanylion sydd eu hangen yn y meysydd - rhaid i un o'r Cyfeirnodau Cwsmer (CRN) fod eich CRN chi. Ar ôl i chi ychwanegu eich ffermwr cyntaf gallwch glicio 'Safio ac Ychwanegu un Arall' ar gornel dde uchaf y sgrin. Ar ôl i chi ychwanegu eich ffermwr olaf cliciwch 'Cadw a Dychwelyd'. Mae angen o leiaf 2 ffermwr.




## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra – Rhestr o Sefydliadau / Unigolion

Mae angen i chi restru'r holl unigolion a sefydliadau a fydd yn rhan o'r cais hwn. Rhaid i chi lenwi'r holl fanylion sydd eu hangen yn y meysydd. Ar ôl i chi ychwanegu eich sefydliad / unigolyn cyntaf gallwch glicio ar 'Safio ac Ychwanegu un Arall' ar gornel dde uchaf y sgrin. Ar ôl i chi ychwanegu eich sefydliad / unigolyn olaf cliciwch 'Cadw a Dychwelyd'. Mae angen o leiaf 1 sefydliad / unigolyn arall.




## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cymhwystra – Manylion y prosiect

Mae angen i chi nodi enw llawn y prosiect a disgrifiad o'r prosiect. Mae terfyn uchaf o 2000 o nodau ar gyfer y disgrifiad o'r prosiect.





Ar ôl i chi wneud hyn dylech allu clicio 'nesaf' i orffen y dudalen cymhwystra. Os ydych wedi colli unrhyw beth, bydd neges/negeseuon gwall yn ymddangos. Edrychwch ar y dudalen gyfan ar gyfer unrhyw beth a gafodd ei liwio mewn coch sydd angen ateb.

Yn ôl i'r Cynnwys

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Y Cydweithio

Cydweithio yw'r meini prawf sgorio cyntaf ar gyfer y Grant Datblygu Prosiect. Ar y dudalen hon, mae angen i chi ddweud wrthym am y strwythur yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau'r aelodau sy'n cydweithio. Bydd angen i chi ddweud wrthym sut mae'r cydweithio'n mynd i sicrhau gwaith llywodraethu a rheoli prosiect da ar gyfer prosiect amlflwyddyn. Dyma wybodaeth bwysig a fydd yn cael ei defnyddio i arfarnu eich Grant Datblygu Prosiect. Mae gan y dudalen hon ddau flwch testun ar wahân a therfyn uchaf o 5000 o nodau ar gyfer pob blwch.





Ar ôl i chi gwblhau'r dudalen hon, dylech brawfddarllen eich atebion cyn clicio ‘nesaf’ i barhau â'r cais.

[Yn ôl i’r Cynnwys]

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Y Dirwedd

Ar gyfer meini prawf y Dirwedd, dylech roi manylion sy'n nodi'r dirwedd a'r ardal ddaearyddol i'w cynnwys, gan amlinellu natur a phwysigrwydd parhaus y dirwedd arfaethedig. Dylech hefyd ddarparu gwybodaeth sy'n dangos graddfa briodol gweithgareddau'r prosiect. Dyma wybodaeth bwysig a fydd yn cael ei defnyddio i arfarnu eich Grant Datblygu Prosiect. Mae terfyn uchaf o 5000 o nodau ar gyfer y blwch testun.





Pan fyddwch wedi gorffen eich ateb, dylech ei brawfddarllen cyn clicio ar ‘nesaf’.

[Yn ôl i’r Cynnwys](#)

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Y cyfle a’r heriau

Mae gan y dudalen hon ddisgrifiad o'r hyn sydd ei angen ar gyfer y dudalen ac mae terfyn uchaf o 5000 o nodau ar gyfer y blwch testun. Dylech ddarparu gwybodaeth i nodi’r heriau cenedlaethol neu leol, y cyfleoedd a'r ffocws ar gyfer y dirwedd. Dyma wybodaeth bwysig a fydd yn cael ei defnyddio i arfarnu eich Grant Datblygu Prosiect.




Pan fyddwch wedi gorffen eich ateb, dylech ei brawfddarllen cyn clicio ar ‘nesaf’.

### Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Effaith, canlyniadau a manteision posibl

Mae gan y dudalen hon ddisgrifiad o'r hyn sydd ei angen ar gyfer y dudalen ac mae terfyn uchaf o 5000 o nodau ar gyfer y blwch testun. Dylech roi manylion am effaith bosibl y camau gweithredu a’r ymyriadau arfaethedig, gan gysylltu'r rheini â’r canlyniadau a’r manteision a ddymunir ar gyfer bioamrywiaeth, gwasanaethau a chadernid ecosystemau, ac â lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol. Dyma wybodaeth bwysig a fydd yn cael ei defnyddio i arfarnu eich Grant Datblygu Prosiect.





Pan fyddwch wedi gorffen eich ateb, dylech ei brawfddarllen cyn clicio ar ‘nesaf’.

Yn ôl i’r Cynnwys

### Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Gwerth am arian

Mae gan y dudalen hon ddisgrifiad o'r hyn sydd ei angen ar gyfer y dudalen ac mae terfyn uchaf o 5000 o nodau ar gyfer y blwch testun. Dyma wybodaeth bwysig a fydd yn cael ei defnyddio i arfarnu eich Grant Datblygu Prosiect. Ar y dudalen hon, dylech ddarparu dadansoddiad o'r gweithgareddau a'r oriau sydd eu hangen yn ystod y cyfnod datblygu hwna manylion yr ymgysylltu a'r digwyddiadau a'r deunyddiau traul yr ydych yn gofyn am gyllid ar eu cyfer.  Rhaid i chi gynnwys esboniad ar sut y bydd hyn yn rhoi gwerth am arian .

Rhaid i chi **amlinellu nifer yr oriau** rydych yn amcangyfrif y bydd eu hangen arnoch i lunio'r cynllun manwl a chwblhau eich cais Cyflawni Prosiect ar gyfer y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig. Mae angen i chi roi dadansoddiad o sut y bydd yr oriau'n cael eu defnyddio. Rhaid i chi hefyd fanylu ar y gyllideb y bydd ei hangen arnoch ar gyfer Ymgysylltu a Digwyddiadau, a Deunyddiau Traul.





Pan fyddwch wedi gorffen eich ateb, dylech ei brawfddarllen cyn clicio ar ‘nesaf’.

[Yn ôl i’r Cynnwys](#)

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r manylion yr ydych wedi'u nodi ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.





Ar ôl i chi edrych ar y crynodeb a chywiro unrhyw wallau cliciwch ar y botwm ‘Nesaf’.

[Yn ôl i’r Cynnwys]

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Datganiadau ac Ymrwymiadau


Rhaid i chi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio'r blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen ac yn cytuno â hwy.




Ar ôl i chi ddarllen a chytuno â'r Datganiadau ac Ymrwymiadau cliciwch ar y botwm Nesaf.

## Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno eich Grant Datblygu Prosiect ar gyfer y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig, cliciwch ar y botwm Cyflwyno.



**Ar ôl cyflwyno'n llwyddiannus**

Bydd crynodeb o'ch Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig wedi'i gwblhau - Grant Datblygu Prosiect yn cael ei ychwanegu at y dudalen ‘Negeseuon’ ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl “Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru”. Sicrhewch eich bod yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynwyd yn drylwyr. Os oes unrhyw ran o’r wybodaeth a ddangosir yn anghywir, atebwch y Neges, gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y byddwch yn dod o hyd i unrhyw wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferthion neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl i’r Cynnwys